

**SAFBWYNT(IAU)
COMISIYNAU ARTISTIAID**

PECYN GWYBODAETH A GWNEUD CAIS

CRYNODEB

Mae Safbwynt(iau) yn gydweithrediad newydd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, gyda sefydliadau celfyddydol eraill ledled Cymru, sy'n ceisio sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y mae'r celfyddydau gweledol a'r sector treftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig ein cymdeithas. Dros gyfnod o ddwy flynedd, bydd gweithwyr creadigol proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yn gweithio gyda'r amgueddfeydd a sefydliadau'r celfyddydau gweledol, i lwyfannu straeon sydd heb eu hadrodd, creu ymatebion artistig a gweithredu fel asiant er newid. Mae'r rhaglen yn ceisio herio ffyrdd presennol o feddwl drwy ymgysylltu â chymunedau i archwilio'r celfyddydau gweledol a'r sector treftadaeth trwy lens gwrth-hiliaeth a dad-drefedigaethol.

CYFLWYNIAD

Artes Mundi yw'r prif sefydliad blaenllaw â ffocws rhyngwladol yng Nghymru i'r celfyddydau gweledol sy'n creu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol i ymgysylltu'n greadigol â materion brys ein hoes mewn ffyrdd sy'n taro deuddeg gyda ni i gyd. Rydym yn ymrwymedig i ysgogi deialogau a thrafodaethau, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth ohonon ni'n hunain, o bobl eraill a'r cysylltiadau rhwng diwylliannau cyfarwydd a phellenig.

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig yng Nghaerllion, ar gyfer prosiect Safbwynt(iau). Cymru oedd safle pellaf yr Ymerodraeth Rufeinig. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig yn adfeilion caer Rufeinig, sef yr unig weddillion barics y Lleng Rufeinig sydd i'w gweld yn unrhyw le yn Ewrop, yn ogystal â'r amffitheatr fwyaf cyflawn ym Mhrydain. Mae'r Amgueddfa wedi bod yn arddangos casgliad gwerthfawr o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 o flynyddoedd.

Y CYFLE

Mae Safbwynt(iau) yn brosiect dwy flynedd ar gyfer gweithwyr creadigol proffesiynol ac mae'n cynnig ffi flynyddol o £12,500 ynghyd ag arian tuag at gostau teithio, costau deunyddiau/cynhyrchu, ffioedd ar gyfer mentora ac ati, y cytunir arnyn nhw gyda chi. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd Amgueddfa Cymru hefyd yn cyfrannu arian ychwanegol tuag at ganlyniadau eich ymchwil er mwyn gallu ei gyflwyno'n gyhoeddus.

Disgwylir y bydd y sawl a benodir yn bodloni'r canlynol:

- Gweithredu fel asiant er newid
- Herio sefydliad/sefydliadau sicrhau tegwch yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau
- Diddordeb brwd mewn gwaith, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddadgoloneiddio manau cyhoeddus

Yn ymarferol, bydd y cyfle'n cael ei ddarparu drwy'r canlynol:

- 100 diwrnod o waith a fydd yn cael ei rannu dros ddwy flynedd rhwng gweithio gydag Artes Mundi ac Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig
- Cymryd rhan mewn ymgysylltiad cymunedol
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydweithio
- Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso

Bydd gofyn i Weithwyr Proffesiynol Creadigol gyfrannu at y broses gynllunio a gwerthuso drwy gydol y comisiwn. Ar ei ddiwedd, er mwyn asesu effaith y rhaglen Safbwynt(iau) bydd y chwe bloc adeiladu canlynol yn cael eu defnyddio yn y broses werthuso ac yn gweithredu fel canlyniadau prosiect:

- **Gofod** - Dad-drefedigaethu manau cyhoeddus, fel amgueddfeydd ac orielau
- **Cymuned** - Hwyluso ymgysylltiad cymunedol dyfnach ac ehangach
- **Dysgu** - Defnyddio casgliadau, arddangosiadau ac arddangosfeydd fel catalyddion ar gyfer dysgu, yn enwedig mewn perthynas â gwladychiaeth, caethwasiaeth, ac Ymerodraeth
- **Datblygiad Ymarferydd Creadigol** - Hwyluso datblygiad Gweithwyr Creadigol Proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol
- **Datblygu'r Sector** - Datblygu sefydliadau celfyddydau gweledol a sector treftadaeth yng Nghymru sy'n weithredol wrth-hiliol ac yn fwy croestoriado
- **Democrateiddio a Dad-drefoli** - Datblygu prosesau a ffyrdd newydd o weithio sy'n gweithio'n ddemocrataidd ac yn groestoriadol tuag at sector celfyddydau a threftadaeth gwrth-hiliol

YR UNIGOLYN

Mae Artes Mundi yn awyddus i benodi gweithiwr creadigol proffesiynol sy'n ymarferydd celfyddydau perfformio neu weledol, curadur neu awdur, sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng. Byddwch chi:

- Yn ymarferydd o Gymru neu'n gweithio yng Nghymru
- Diwylliannol ac ethnig amrywiol

Rydyn ni'n gweithio i'r diffiniad o fod yn 'ddiwylliannol ac ethnig amrywiol' yn unol â'r hyn a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n golygu:

- Unrhyw un o'r diaspora Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewrop neu'r Dwyrain Canol yng Nghymru
- Unrhyw un sy'n dod o grwp ethnig nad yw'n wyn yn unig

- Unrhyw un o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

MEINI PRAWF DEWIS

Aseswn geisiadau'n ôl:

1. Ansawdd yr ymarfer creadigol a thystiolaeth o greu gwaith.
2. I ba raddau y mae'r cynnig yn cyflawni pwrpas y comisiynau ac yn dangos anghenion datblygu clir
3. Pa mor bosibl y bydd y cynnig gyda'r gyllideb ac yn ôl yr amserlen.
4. Cynnwys y cynnig a ddaw o brofiad personol neu wir ymholiad.

Hefyd bydd y dewiswyr yn ystyried pa effaith y caiff y grant ar eich datblygiad creadigol, ystod ymarfer ac adeg yrfa'r grŵp a chyfraniad y comisiynau at gelfyddydau gweledol Cymru yn y dyfodol.

Tîm curadol Artes Mundi a gweithiwr proffesiynol gwadd sy'n gweithio yn y celfyddydau gweledol fydd yn gyfrifol am ddethol y comisiynau. Ein nod yw hysbysu'r holl ymgeiswyr ynglŷn â phenderfyniad y panel wythnos ar ôl y cyfweiliadau. I'r rheini sy'n cael eu dethol ar gyfer cyfweiliad, os na fyddwch chi'n llwyddiannus, ysgrifennwn atoch i esbonio pam gan gynnig cyfle am adborth.

SUT I WNEUD CAIS – CYNNIG

Mae'r cais am y comisiynau wedi'i strwythuro er mwyn bod mor ysgafn â bo modd. Dylech gyflwyno cynnig ysgrifenedig sy'n cynnwys cwblhau'r ffurflen isod gyda manylion personol, datganiad sy'n dangos y cysyniad, y gwaith arfaethedig, y cyd-destun o ran o'ch gwaith a maes ehangach y celfyddydau gweledol ynghyd â chyllideb fanwl sy'n dangos ffioedd a chostau deunyddiau a chynhyrchu ac unrhyw anghenion mynediad fel y gallwch gymryd rhan yn y comisiynau. Ceir y gwahanol ddulliau o wneud cais, y fformat a'r strwythur a manylion eraill mewn cysylltiad â'r cynnig yn yr wybodaeth isod.

Mae Safbwynt(iau) yn canolbwyntio ar brofiad uniongyrchol. Mae dadgoloneiddio a gwrth-hiliaeth yn ganolog i'r gwaith hwn, felly dylech ystyried cynnwys y canlynol yn eich cynnig:

- Dywedwch wrthym pam rydych am gymryd rhan yn rhaglen Safbwynt(iau).
- Beth ydych chi'n gobeithio ei ennill neu ei gyflawni?
- Rhowch wybod i ni eich profiad o weithio ar y canlynol:
 - I. Prosiectau gwrth-hiliaeth/dad-drefedigaeth
 - II. Wedi ymgysylltu â grwpiau cymunedol/unigolion o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol

Ochr yn ochr â hyn, dylech hefyd gyflwyno deunyddiau ategol sy'n cynnwys hyd at wyth delwedd eglur iawn o waith blaenorol mewn fformat TIFF neu JPG, gyda phob ffeil heb fod yn fwy na 5MB. O gofio bod ffeiliau sain a/ neu fideo'n aml yn fawr, dylech anfon dolenni a/neu gyfrineiriau atom i'ch ffeiliau naill ai ar YouTube, Vimeo neu Soundcloud yn ogystal â dolen â'ch gwefan os oes gynnoch chi un. Neu anfon ffeiliau sain/ fideo drwy Wetransfer o safon ragolygol yn unig a heb fod yn fwy na 10MB yr un.

BOD YN GYMWYS

- Rhaid i ymgeiswyr fod o Gymru neu'n byw yng Nghymru a gallu gwneud cais yn eu henwau cyfreithiol.
- Rhaid ichi fod â chyfrif banc yn eich enw cyfreithiol
- Ni dderbyniwn gynigion gan neb sydd mewn addysg ffurfiol amser llawn gan gynnwys astudiaethau ôl-raddedig.

ARFERION CYNHWYSOL

Nod Artes Mundi yw dod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa a chanddynt brofiadau bywyd mor amrywiol â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn sylfaenol i'n llwyddiant yn y dyfodol a'n gallu i barhau i gyfrannu i ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a'r DU.

Mae Artes Mundi yn hollol ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym wrthi'n cydweithredu i greu diwylliannau cynhwysol yn y gwaith. Cydnabyddwn fod llawer o bobl nad yw eu profiadau a phersbectifau'n cael eu cynrychioli'n dda yn ein gwaith nac yn sector y celfyddydau yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys pobl groenliw, pobl anabl a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol. Rydym yn annog yn arbennig ymgeiswyr sy'n gallu uniaethu â mwy nag un o'r profiadau a diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Nodwch y bydd yr holl gyfweiliadau yn cael eu cynnal ar-lein, gan ddefnyddio Zoom neu blatfformau eraill ar gais. Bydd rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau'n cael eu rhoi i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweiliad. Mae cymorth ariannol ar gael i unrhyw un sy'n gofyn am gymorth i'w helpu i gymryd rhan mewn cyfweiliad ar-lein.

TELERAU'R SWYDD

Bydd y tîm curadurol Artes Mundi yn cynnig ymweliadau stiwdio rheolaidd a chymorth i ddatblygu prosiectau fel rhan o'r sgwrs curadurol ehangach. Bydd sesiynau adborth mewn stiwdios hefyd yn cael eu darparu fel cyfraniad hanfodol i ddatblygiad y gwaith a fydd yn cael ei gynhyrchu. Dyma fanylion y cynnwys a'r strwythur:

- Contract comisiwn dwy flynedd
- Ffi fflynyddol o £12,500
- Cyllid ar gyfer teithio, cynhyrchu, deunyddiau, mentora ac ati dros ddwy flynedd
- Cefnogaeth tuag at ofal, boed yn fentor, yn ymwneud ac yn cyfrannu at rwydweithiau a chyn-fyfyrwyr Artes Mundi eraill, neu'n arian ar gyfer gofynion mynediad artistiaid unigol i gymryd rhan yn y prosiect
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad artistig a phroffesiynol pellach
- Cyllid pwrpasol i wireddu'r canlyniad cyhoeddus, yr ymyriad neu'r cyflwyniad terfynol
- Gwerthuso'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni a'i ddysgu, yn ôl y manylion uchod

AMSERLEN GWNEUD CAIS

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y swydd hon gan ddefnyddio'r **Ffurflen Gais** a'r **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal** a'u cyflwyno dros yr e-bost i opportunities@artesmundi.org gan ddyfynnu 'Safbwynt(iau)' yn y llinell pwnc. Mae'r nodiadau canllaw yn y ddogfen hon isod yn cynnwys opsiynau eraill ar gyfer gwneud cais.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw: **18 Mehefin 2023 am 5pm**

Cynhelir cyfweiliadau: **Yr wythnos yn dechrau 26 Mehefin 2023 ar adegau i'w hysbysu**

Dyddiad cychwyn y comisiwn: **Yr wythnos yn dechrau 12 Gorffennaf 2023**

Hysbysir yr ymarferydd llwyddiannus: **Yr wythnos yn dechrau 3 Gorffennaf 2023**

Digwyddiad rhwydweithio grŵp cyntaf wyneb yn wyneb: **12 Gorffennaf 2023** (mae hyn yn cynnwys pob un o'r saith sefydliad creadigol llwyddiannus a chynrychiolwyr o'r saith sefydliad sy'n cynnal, Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru - lle i'w gadarnhau)

Cyfarfod ar gyfer yr holl weithwyr creadigol ar-lein: **19 Gorffennaf 2023** (hanner diwrnod, amseroedd i'w cadarnhau)

Diwedd Safbwynt(iau): **31 Mawrth 2025**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

NODIADAU CANLLAW

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn y cyfleoedd comisiwn yma gydag Artes Mundi.

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, y cais, y ffurflenni neu'r cyfweiliad, cysylltwch â Nigel Prince, Cyfarwyddwr, yn opportunities@artesmundi.org ac fe allwn eich helpu.

Llenwi'r Ffurflen

Peidiwch ag atodi CV, geirdaon neu gopiâu o dystysgrifau addysgol i'ch cais.

Mae'n bwysig cofio na all y rhai sy'n rhan o'r broses ddethol ddyfalu na gwneud rhagdybiaethau amdanoch chi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n sôn wrthym am bopeth sy'n berthnasol i'ch cais a'ch bod yn cwblhau pob adran o'r ffurflen. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais, sydd â'r nod o'ch helpu chi i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Mae'r adran dan y pennawd 'Cynnig' yn rhan bwysig iawn o'ch cais. Yn yr adran yma gofynnir i chi ddarparu'r cefndir, syniadau a'r nodiadau cynhyrchu hanfodol sy'n berthnasol i syniad y comisiwn.

Dyma'ch cyfle i ddweud wrthon ni'n benodol beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, pam rydych chi am wneud cais am y cyfle a beth bydd yn ei olygu yn narlun mawr eich gwaith. Rhaid nodi mwy na bod gynnoch chi'r priodweddau, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad angenrheidiol, gan roi gwybodaeth benodol i ni o ran beth rydych chi'n ei gynnig a pha fudd a ddaw i'ch gwaith o'r comisiynau hyn.

Cofiwch brawfddarllen eich ffurflen a gwirio am unrhyw gamgymeriadau cyn ei chyflwyno i ni.

Fformatau eraill

O ran eich cynnig a'r gyllideb, mae'n bosibl y byddwch am gyflwyno recordiad fideo neu sain ar ffurf ffeil mp4 sydd heb fod yn hirach na 10 munud ar ei hyd yn hytrach na darn ysgrifenedig. Gwnewch yn

siŵr bod cyn lleied o sŵn â phosibl yn y cefndir a'ch bod yn siarad yn glir. Mae rhagor o wybodaeth am hyn o dan yr adran Datganiad Ategol.

Os ydych chi'n dewis defnyddio'r fformat hwn mae'n rhaid i chi ddychwelyd rhan gyntaf eich Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal i ni mewn e-bost o hyd. Cysylltwch â ni os ydych angen unrhyw gymorth.

Cyfweliad

Cynhelir y cyfweliadau anffurfiol byr ar gyfer y comisiynau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 26 Mehefin 2023 ar amserau i'w trefnu.

Cynhelir pob cyfweliad ar-lein gan ddefnyddio Zoom neu gyfrwng arall os oes angen..Os nad yw'r dyddiadau hyn yn bosibl i chi neu eich bod angen defnyddio platfform gwahanol rhowch wybod i ni ac fe wnawn weithio gyda chi i chwilio am ddewis arall.

Bydd rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau'n cael eu darparu i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad. Bryd hynny byddwch yn gallu rhoi manylion unrhyw drefniadau arbennig neu addasiadau rydych chi eu hangen er mwyn gallu cymryd rhan yn ein proses ddethol trwy gyfweliad yn effeithiol.

Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal

Mae'n rhaid cael Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal gyda phob cais. Bydd y ffurflen yn cael ei gwahanu oddi wrth eich cais wrth gael ei dderbyn ac ni fydd yn rhan o'r broses.

Os ydych yn ymgeisio am swydd sy'n golygu gweithio gyda phlant/oedolion agored i niwed gall eich cynnig cyflogaeth fod yn amodol ar ddatgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallai methu datgelu gwybodaeth am unrhyw euogfarnau arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.

Ffurflen Gais

Cyferinod
At ddefnydd swyddfa yn unig

Safbwynt(iau)

Enw(au) cyntaf	Cyfenw
Cyfeiriad	
Cod Post	
Ffôn	Ffôn Symudol
E-bost	

Sut y clywsoch chi am y swydd?

Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu oddi wrth y ffurflen gais pan fyddwn yn ei derbyn ac ni fydd yn rhan o'r broses ymgeisio o gwbl

CYNNIG

Dyma'ch cyfle i ddweud wrthon ni pam rydych chi am wneud cais am y cyfle gydag Artes Mundi a gweithio'n benodol ar raglan Safbwynt(iau).

Dywedwch wrthon ni sut byddech yn ymdrin â'r comisiwn a beth rydych chi'n bwriadu ei wneud. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a phresennol i ddangos sut byddech yn defnyddio'r rhain o ran y syniadau y tu ôl i'ch cynnig, ei gyd-destun a'r broses o'i gynhyrchu mewn perthynas â'ch gwaith ehangach. Cyfeiriwch at y Nodiadau Canllaw uchod i gael rhagor o gymorth a'r ddogfen ar wahân sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am Amgueddfa'r Lleng Rufeinig a safle Caerllion.

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy dudalen A4 nac yn llai na maint ffont 11pt yn ogystal â'r ddogfen gyllideb ar ddalen A4 unigol. Fel arall, fel y nodir yn y nodiadau canllaw, gellir cyflwyno hyn fel fideo neu recordiad sain. Os ydych chi'n defnyddio'r dull hwn, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud.

Os ydych chi'n penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain gwnewch yn siŵr bod cyn lleied o sŵn cefndir â phosibl arno a'ch bod yn siarad yn glir i'r meicroffon. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau ychwanegol i'r cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol i'r meicroffon neu'r camera. Gall recordiadau sain a fideo greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd i'w hanfon mewn e-bost felly anfonwch ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar Youtube, Vimeo neu Soundcloud neu e-bostiwch nhw atom ni yn opportunities@artesmundi.org gyda 'Safbwynt(iau)' yn y llinell pwnc.

Cyfeirnod At ddefnydd swydfa yn unig

ADDYSG A HYFFORDDIANT


Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a enillwyd a rhai rydych yn eu hastudio ar hyn o bryd, ac unrhyw hyfforddiant rydych wedi'i gwblhau neu sy'n parhau.

Nodwch y diweddaraf yn gyntaf.

Ysgol/ Coleg/ Pri-fysgol/ Darparwr Hyfforddiant	Pynciau a graddau a/neu Deitl y Cwrs	Dyddiadau cyflawni

ARDDANGOSFEYDD, COMISIYNAU BLAENOROL, CASGLI- ADAU

Rhowch fanylion unrhyw arddangosfeydd undyn/un-ddynes neu ar y cyd, comisiynau blaenorol, gwaith mewn casgliadau sydd ar y gweill a thros y tair i chwe blynedd ddiwethaf neu ddolen â'ch gwefan os oes gynnoch chi un.



Swydd bresennol neu fwyaf diweddar (Cyflogedig neu ddi-dâl)

Enw a chyfeiriad y cyflogwr	
Teitl y Swydd	Dyddiadau cyflogi
Rhowch amlinelliad byr o'ch prif ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau	

GWYBODAETH O GYMRAEG LLAFAR NEU IEITHOEDD ERAILL
Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, rhugl)

Nid oes angen ail iaith ar gyfer y swydd hon

--

SWYDDI ERAILL A GWAITH GWIRFODDOL
(CYFLOGEDIG A/NEU DDI-DÂL)

Nodwch y diweddaraf yn gyntaf

O I	Enw a chyfeiriad y cyflogwr	Rôl a chyfrifoldebau	Rhesymau am adael/symud

GWIRIO

- Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir hyd y gwn i.
- Rwy'n cadarnhau nad wyf mewn addysg lawn amser (12 awr neu fwy o astudio yr wythnos)
- Rwy'n cadarnhau bod gennyf hawl i weithio yn y DU

Y Ddeddf Diogelu Data

Nodwch fod llofnodi'r ffurflen yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio'r ffurflen gais at ddibenion prosesu recriwtio. Bydd yr holl fanylion yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Llofnod:

Dyddiad:

Nodwch y bydd rhaid llenwi ein Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer tynnu rhestr fer yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd llenwi'r ffurflen yn helpu Artes Mundi i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

CANOLWYR

Rhowch fanylion dau ganolwr. Un ohonynt fydd eich cyflogwr presennol, neu fwyaf diweddar os nad ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun sy'n gallu mynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a'ch gallu i gyflawni'r swydd yr ydych yn ymgeisio amdani. Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

Enw	Enw
Teitl swydd	Teitl swydd
Enw'r sefydliad	Enw'r sefydliad
Cyfeiriad	Cyfeiriad
Rhif ffôn	Rhif ffôn
E-bost	E-bost
Am ba hyd ydych chi wedi adnabod yr unigolyn hwn ac ym mha gyd-destun?	Am ba hyd ydych chi wedi adnabod yr unigolyn hwn ac ym mha gyd-destun?

Diolch am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am roi o'ch amser i lenwi'r ffurflen gais.